

Blawd wedi cyhoeddi 'Blodau Gerdd Cymry' yn 1759, ar 'Eglwyrn' yn 1750, ymhlith a llawer arall, ac erbyn cyrraedd ei chwe degau gwelwn ef yn cychwyn ar fenter newydd fel argraffydd. Roedd yn glochudd tra enwog ond dyma wr a wnaeth waith mawr a phwysig trwy gasglu dogfennau a hen lawysgrifau – llond cist ohonynt yn wir, a diolch i Ieuan Brydydd Hir, curad eglwys Trefriw am ofalu amdanynt a'u cadw i'r oesau a ddel'. Bu i Thomas Pennant ddweud mai yn y rhain y cafodd rai o'r pethau mwyaf gwerthfawr i'w darllen a'u hastudio pan ar ei daith trwy Gymru. Elis Roberts (Elis y Cowper) oedd clochudd Llanddoged ar yr un adeg a Dafydd Jones yn Nhrefriw, ac y mae Twm o'r Nant yn cyfeirio atynt yn un o'i gywyddau:

Dafydd llyfrgellydd gwiw
Awdur hoew-fraint o Drefriw...
Ac Elis, wr dibris daith
Y cowper-fardd, co' purffaith.

Fel y soniwyd eisoes byddai disgwyl i'r clochudd ddod â phennill a charol newydd erbyn y gwyliau, ac fe gyhoeddodd Elis Roberts nifer ynghyd â llyfrynau.

Gelwid Richard Williams (Rhisiart Prisiart), clochudd a gwehydd Llanllyfni fel y *Clochudd Llengar*, a fu oedd tad Michael Pritchard 'Y Bardd Mawr' a anwyd yn 1709 ond a fu farw yn 27 oed yn Llanfechell a chofadaid iddo'n dweud *An ingenious Welsh Poet*. Mae cyfeiriad ato mewn llawysgrif yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain yn dweud 'mab clochudd Llanllyfni'.

Trwy droi at Ann Griffiths, Dolwar Fach y down i wybod am Harri ap Harri y clochudd yn Eglwys Llanfihangel yng Ngwynfa. Dywed rhai mai Ann Griffiths a Morgan Llwyd o Wynedd yw'r ddau gyfrinydd mwyaf a welodd Cymru. Roedd Morgan Llwyd yn fardd, ond mewn rhyddiaith y gwnaeth ei gyfraniad mawr. Medrai Ann ysgrifennu rhyddiaith wych hefyd, ond ei hemynau yw ei gogoniant. I Eglwys Llanfihangel yng Ngwynfa y byddai Ann a theulu Dolwar Fach yn perthyn. Bu Twm o'r Nant yn byw wrth ymyl am beth amser, ond y gorau o'r beirdd lleol oedd y clochudd, Harri ap Harri, a byddai Sion Ifan Tomos, tad Ann yn mynychu ei ddosbarthiadau nos. Yn wir i Ddolwar Fach y daeth holl gynnyrch gwaith Harri ap Harri ar ôl ei farw. Felly, down i weld sut y daeth Ann i ddsygu ac i fwynhau barddoni.

Mae Dewi Jones, Dyffryn Nantlle, yn ei ysgrif 'Hynt a Helynt Hogia'r Mynydd' (Ll.G.), sef y tywysyddion (*guides*) oedd yn mynd a'r byddigion i gopau mynyddoedd Eryri, yn sôn am Richard Edwards, clochudd Eglwys Santes Fair, Beddgelert. Roedd gan Richard Edwards wybodaeth anhygoel am fotaneg; llysieuaeth; daeareg a mwynyddiaeth, ac yn arwain y teithiau yma gan rannu ei wybodaeth efo'r dieithriaid. Cawn ei hanes yn dweud ei gŵyn fel y byddai'r gofyn arno i gario'r holl baciau i fyny ac i lawr y mynyddoedd uchel. Mae un peth diddorol arall hefyd am Richard Edwards – fo wnaeth, a chodi y garreg wreiddiol ar fedd Gelert 'y ci ffyddlon'. Bu farw yn 74 blwydd oed ar 17 Mawrth 1845. Un arall o dywysyddion enwog Beddgelert oedd Thomas Jones, er nad yn glochudd. Mae llyfr poced hwn, neu ei *day book* ar gadw yn Llyfrgell y Brifysgol, Bangor. Byddai'n gofyn i'w gleient ysgrifennu ynddo i dystio i'w gymwysterau. Llyfr Hysbysebion go iawn. Mae'n nodi'r teithiau a'r tali. (D.J. Ll.G.42)

Mae yna storïau difyr i gael am rai ohonynt. Rwy'n hoffi hon yn fawr – am hen

glochudd Llannerch-y-Medd. Hwn wedi mynd i'r Sowth i weld ei deulu ac wedi bod yn llymeitiant yn o drwm gyda'r nos. Bu dathlu mawr a hen sgwrsio, ond ar y ffordd allan wna'i ei goesau mo'i gario. Syrthiodd yn glewt i'r llawr a chysgu, ac yno ei gadawyd gan y lleill, oedd yr un mor feddw ag yntau mae'n siŵr. Pan ddaeth colliers y shifft gynnar heibio a'i weld dyma ei roi yn y caets ac i lawr a fo am hwyl. Deffro yn y tywyllwch, a rhyw goliar diniwed yn ei weld ac yn gofyn,

'O lle i chi'n dod felly?'
'O'r ddaear, syr.'
'Pwy i chi, felly?'

'Wel, clochudd Llannerch-y-Medd pan oeddwn yn y byd arall.'

* * *

Hanes difyr sydd i ryw hen glochudd yn Eglwys Sant Madryn, Trawsfynydd, oedd yn cael ei herian yn ddiiddiwedd fod yr eglwys o dan fygythiad datgysylltiad a'i dyddiau wedi eu rhifo. 'Wel, mi fydda i yno beth bynnag a'r Llyfr Gweddi yn fy llaw, ac fe fydd yr eglwys ar agor tra y bydda i.' Da fo. Mae dau a thri yn cadw capeli ein bro ar agor o hyd.

Yng ngholofn 'Lloffion' (*Baner ac Amseroedd Cymru*, Ebrill 30 1897) mae cyfeiriad sydd yn cadarnhau enw'r clochudd ar un eglwys yn sir Henffordd. Roedd hysbysiad wedi ei roi ar ddrws yr eglwys yn darllen:

Hyn sydd i hysbysu nad oes neb i gael eu claddu yn y fynwent hon ond y rhai sydd yn byw yn y plwyf, ac y mae y rhai a ddymunent eu claddu i ddod ataf fi gyntaf – EPHRAIM GRUBB, Clochudd.

Yn ôl pob tebyg roedd Edward Hughes, Sychnant, Mynydd y Gaer, yn glochudd ac yn dorwr beddau, ac yn gofalu am yr eglwys tua thriddegau y ganrif ddiwethaf.

Yn ardal Bethesda, Arfon, bu William Morris, Coetmor Cottage, yn glochudd 'o dan yr hen drefn' am 34 blynedd. 'Pawb' yn 'nabod William Morris gan mai ef yn ôl pob sôn oedd yn rhedeg y tacsî cyntaf yn yr ardal, cyn ymledu y busnes i redeg bysiau a lorïau. Roedd ganddo hen rysait i wneud Indian Rock No.8 – rysait ddirgel. Cefais y wybodaeth gan ei wyres Mrs Jean Gotel, Llandudno.

Mae'n nodi ar garreg fedd John Jones, Tŷ'r Ardd, Llanfaethlu ei fod wedi bod yn glochudd ar Eglwys Sant Maethlu am 31 blynedd hyd ei farw yn 1878. Roedd John Jones yn arddwr mawr ac mae hanes iddo godi tŷ unnos. Teiliwr wrth ei alwedigaeth, a chyda'i ddiddordeb mewn garddio byddai'n tyfu grawnwin yn Sir Fôn. Mae yn cael ei nodi hefyd ei fod yn *Parish clerk*. Y clochudd yn aml oedd clerig y plwyf, sydd yn cadarnhau eu bod yn medru darllen ac ysgrifennu mewn cyfnod pryd y byddai y rhelyw yn anlythrennog. Daeth ei wyres, sydd yn y Rhyf, ar y ffôn â mi i ddweud yr hanes hwn, a llawer mwy. Difyr iawn.

Roedd Meirion Parry, Cricieth, a chyn brifathro Ysgol Eifion Wyn, yn dweud ei fod yn hanu o deulu clochuddion Llanllyfni. Daeth ei daid, John Parry, o Llety Adda, Llangwnadl i Ddyffryn Nantlle i weithio pan oedd y chwareli llechi yn eu bri, a'r chwarel a hawliodd ei fywyd hefyd, pan gafodd ei ladd yn nhwll Blaen-y-Cae. Bu'n glochudd yn Eglwys Sant Rhedyw, Llanllyfni hyd ei farw yn 1924. Fel y dywedodd Meirion 'ar elor y chwarel y daeth adref i Bermo' (enw'r cartref yn Llanllyfni). Roedd tad Meirion yn dwyn yr enw Hugh Parry 'clochudd' a dyna sut mae pobl yn 'nabod Meirion – y clochudd bach,

a'i frawd Maldwyn (enillydd y Rhuban Glas) ac Arfon a ddaeth yn giwrdd i Eglwys Tyddyn Gwyn, Manod, Blaenau Ffestiniog sydd yn cael ei hatgyweirio y dyddiau yma a'i thrawsnewid i fod yn Eglwys Roegaidd o dan ofal y Tad Deiniol.

Tybir mai un o glochuddion Llanllyfni sydd o dan sylw yn y cyfeiriad at farwolaeth 'hen glochudd y llan' yn y pennill a welir yng ngholofn Lloffion (*Baner ac Amseroedd Cymru*, Gorffennaf 31, 1878):

Hen glochudd y Llan – fu farw'n ddistwr
Fe yfodd lawer o gwrw'n lle dŵr,
Fe'i clywir yn gynnar ar fore y farn
Yn gweiddi 'Good Morning drigolion
Talysarn'.

'Cwrw y clochudd' eto tybed?

* * *

Clochudd yn Llanllyfni oedd Robert Ellis – Y Clochudd Awenyddol, a fu farw ar 14 Ebrill 1872, ac y mae'n dweud ar ei garreg fedd ei fod wedi gwasanaethu mewn 2556 o angladdau yn ystod ei dymor o 43 blynedd fel clochudd. Cawn hanes pur lawn am Robert Ellis yn rhif 41 *Llafar Gwlad*, gan Dewi Jones. Dywedodd Robert Ellis na chafodd 'y fraint' o gael chwarter o Ysgol Ddyddiol erioed. Rwy'n tybio mai un tymor mewn blwyddyn y cyfeirir ato, ond llwyddodd i ddsygu darllen ac ysgrifennu, a meistrolï'r iaith fain ymhen amser a hynny'n ddigon da i gyfansoddi dau bennill o gyfieithiad Saesneg o Gân Sant Ambrose y 'Te Deum'. Bu iddo hefyd gyfieithu un o gerddi William Cowper (1731-1800) 'The Rose'. Dyn arbennig iawn fyddwn i'n tybio ar ôl darllen rhai o'i weithiau. Gwyllt hefyd! Doedd dim maddeuant i'r sawl a fentrodd ddwyn sibwls o'i ardd:

Yn wenwyn bo'r winwyns, i'r peiriad hyll, barus,
Cysdowci tra gwancus, anlygus ei lun;
Dymunaf o'm calon i'r rhain fod yn eirwon
O fewn ei golyddion yn oerion neu wyn...
Gobeithio caiff boen!

I'w groen doed y crynu a'r ymgrafu ar ei grwth...
Y pigyn tra hegar i'r stincyn, a'r cancar,
A'r colic mewn galar, a'r llyngir fel lleng
A godo at y winwyns yn boenus i'w ben.
Y cnyfysiw'n a'r polsi...

a.y.y.b. ac yn y blaen!

Wedi darllen ysgrif ar yr 'Hen Ddoctor Mynydd' (Ll.G.64 Dewi Jones) down yn ôl at Robert Ellis eto. Yma y ceir yr hanes am ddoctoriaid enwog Hafod yr Esgob ar fynydd Llanllyfni (a elwir Nebo heddiw). Yn ei lyfr 'Lloffion Awen Llyfnwy' a gyhoeddwyd yn 1852, mae Robert Ellis yn cynnwys englyn i ddau feddyg enwog yn yr ardal, a'r unig ddau y gwydydd amdanynt ydyw Dr David Thomas Jones a'i fab o'r un enw, Dr David Thomas Jones. Bu'r tad farw yn 1839 a'r mab yn 1888 (blwyddyn y tair sbectol). Mae'r englyn yn cyfeirio at dranc y ddau:

Er meddu ar y moddion – a wellhaent
Eraill o gleydyon
Angau trwch i'r llwch-gell hon
Yma ddug y meddygon.

Dewch i ni fynd yn ôl i'r dyddiadau. Cyhoeddwyd y llyfr yn 1852; bu farw Dr David Thomas Jones y tad yn 1839; Robert Ellis yn 1852 a'r meddyg ieuengaf yn 1888. Oes lle i gredu fod y bardd yn paratoi ei waith ymlaen llaw?

Mae gweithiau 'barddonol' Robert Ellis yn eithriadol o ddifyr, ac yn darllen fel llyfr hanes ar y cyfnod ar adegau. Er enghraifft mae ei bwt o gân i'r gof yn gofyn am iddo wneud procer a gefail gogyfer a'i briodas, a hynny 'ar frys' am resymau oedd yn dod yn fwy amlwg bob dydd!

PEGGY LLOYD WILLIAMS